# Pwyllgor Menter a Dysgu

**EL(3) 04-08 (p1) : 6 Chwefror 2008**

## Cyfraniad Economaidd Addysg Uwch yng Nghymru:

## tystiolaeth a gyflwynir gan Brifysgol Aberystwyth

### Rhagarweiniad

Y mae swyddogaeth Prifysgol Aberystwyth i les economaidd a diwylliannol ei rhanbarth yn anhepgor. Er ein bod yn gweithredu ac yn cystadlu yn rhyngwladol, y mae gennym gyfrifoldeb arbennig i Gymru ac, o ran datblygiad economaidd, i ganolbarth Cymru yn benodol. Y mae'r brifysgol yn ganolbwynt hanfodol yn y rhanbarth ac y mae, trwy ei gwaith ymchwil a dysgu a thrwy ei swyddogaeth ehangach yn y gymuned, yn gyrru datblygiad economaidd a diwylliannol. Y mae natur y rhanbarth yn golygu bod y brifysgol yn ymwybodol o'i chyfrifoldebau unigryw yn y cyswllt hwn, ac y mae'n rhoi i'r rhanbarth ystod o gyfleoedd ar gyfer datblygiad economaidd. Y mae'n effeithio ar yr economi mewn tair ffordd yn fras: trwy ddysgu a hyfforddi pobl, fel cyflogwr mawr a thrwy drosglwyddo gwybodaeth yn uniongyrchol.

### Prifysgol Aberystwyth

Y mae Prifysgol Aberystwyth yn ganolfan addysg uwch ddeinamig a llwyddiannus. Y mae iddi enw da yn rhyngwladol am safon uchel ei dysgu a'i hymchwil mewn meysydd penodol. Y mae'n darparu addysg ac ymchwil ar draws ystod eang o feysydd a drefnir yn 18 o adrannau academaidd. Y mae'n gwneud yn dda yn gyson yn arolygon barn myfyrwyr, sy'n cadarnhau ansawdd yr adnoddau dysgu ac addysgu a'i hymrwymiad i ddatblygiad academaidd a lles ei myfyrwyr. Yn yr Arolwg Cenedlaethol diweddaraf ar Fodlonrwydd Myfyrwyr daethom yn y 10 uchaf unwaith eto; yn y Times Good University Guide ym mis Awst, cawsom y sgôr uchaf yn y DU am fodlonrwydd myfyrwyr; ac roeddem yn un o'r chwe terfynol am wobr y Times Higher Education Supplement am y profiad myfyriwr gorau.

Mewn amgylchedd gystadleuol mae llwyddiant y brifysgol yn dibynnu ar ei gallu i'w gwneud ei hun yn fwy cystadleuol o ran ymchwil a menter, a'i gallu i ddenu myfyrwyr – o Gymru, gweddill y DU ac o wledydd eraill. Bydd ymgorffori'r Sefydliad Ymchwil Tir Glas a'r Amgylchedd [IGER] yn y brifysgol yn ddatblygiad arwyddocaol, a fydd yn creu endid a chanddo'r maint ac ystod yr arbenigedd i fod yn un o ganolfannau rhyngwladol blaenllaw maes gwyddor amgylcheddol a defnydd cynaliadwy o dir. Rydym yn parhau i bwysleisio pwysigrwydd sbectrwm ymchwil a menter: o ymchwil bur, trwy ymchwil strategol a chymhwysol ymlaen tuag at fenter.

Y mae'r Bartneriaeth Ymchwil a Menter gyda Phrifysgol Bangor yn gynllun strategol pwysig arall a gynlluniwyd i wella ein galluoedd yn hyn o beth. Fe'i sefydlwyd gan gyllid o'r Gronfa Ailgyflunio a Chydweithredu, ac mae'n cynnwys pedwar cynllun ymchwil cydweithredol ac Uned Gymorth i Ymchwil a Menter sy'n gweithio'n strategol i gynyddu incwm ymchwil a gweithgaredd menter gyda busnesau a mudiadau yng Nghymru ac yn rhyngwladol.

Y mae'r Brifysgol yn datblygu strategaeth trydydd cenhadaeth ar y cyd â Phrifysgol Bangor sy'n cwmpasu sbectrwm llawn o weithgaredd menter (creu cyfoeth) a chysylltiadau (allanol) a gynlluniwyd i sicrhau bod rhagoriaeth y Brifysgol o ran dysgu ac addysgu ac ymchwilio yn ymestyn y tu hwnt i'r campws ac yn gwneud cyfraniad gwerthfawr yn economaidd, yn gymdeithasol a diwylliannol yng Nghanolbarth Cymru a thu hwnt.

Y mae'r Brifysgol yn llwyr sylweddoli gwerth a chyfrifoldebau ei rôl yn hyrwyddo menter a gwybodaeth, wrth barhau ag ymchwil sy'n gwthio ffiniau, y gallu i weithredu â chywirdeb ac annibynniaeth er mwyn ymholi a phrofi dulliau newydd o feddwl a gwneud polisïau.

Cytunwn â'r papur tystiolaeth a gyflwynwyd gan y Cyngor Cyllido sy'n cydnabod bod Sefydliadau Addysg Uwch tebyg i Brifysgol Aberystwyth yn cyfrannu i economi Cymru mewn amryw ffyrdd:

fel cyflogwyr a defnyddwyr nwyddau a gwasanaethau;

trwy ddarparu pobl a chanddynt sgiliau;

trwy gymhwyso gwybodaeth;

ac ar ben hynny

fel magned sy'n denu busnesau wedi ei seilio ar wybodaeth (a phobl) i Gymru;

fel cynhyrchwyr enillion allforio sylweddol.

### Prifysgol Abersytwyth fel cyflogwr

Y mae Prifysgol Aberystwyth yn fusnes sylweddol ag iddo drosiant yn 2006/7 o ychydig dros £85 miliwn. Ar ôl ymgorffori IGER bydd hyn yn cynyddu i dros £100 miliwn, 40% ohono yn gyllid gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (HEFCW). Mae ein heffaith economaidd yn sylweddol, gan ein bod yn darparu tua 1500 o swyddi cyfatebol ag amser llawn, sy'n gwneud y Brifysgol yn un o'r cyflogwyr mwyaf yng Nghanolbarth Cymru. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf cafwyd cynnydd o bron £9m mewn incwm ymchwil gan Gynghorau Ymchwil, elusennau a ffynonellau Llywodraeth y DU a'r UE. Y mae tua 10% o hwn yn ymchwil ar y cyd â chwmnïau mawr a

bach, y mwyafrif ohonynt yng Nghymru. Ar ôl i IGER ddod yn rhan o'r Brifysgol bydd hyn yn cynyddu yn agos i £25 miliwn, a bydd tua 15% ohono ar y cyd â busnesau. Yn 2006/7 roedd y ffioedd a dalwyd gan fyfyrwyr o'r tu allan i'r UE yn dod i tua £3.2 miliwn, a oedd yn enillion allforio sylweddol.

Yn sesiwn 2006/7 daeth gweithgareddd gwasanaethau'r Brifysgol (masnachu, cynadleddau, ymgynghoriaethau, contractau heblaw am ymchwil) i dros £20 miliwn. Ar ben hyn, y mae'n bwysig nodi bod Canolfan Gelfyddydau'r brifysgol, sydd ag incwm blynyddol o £3.6 miliwn, yn ganolfan bwysig iawn yn y dref a'r rhanbarth o ran diwylliant, twristiaeth a'r gymuned. Y mae ein cyswllt â'n alumni hefyd wedi bod yn ffynhonnell bwysig o incwm buddsoddi; dros y blynyddoedd, y mae Aberystwyth wedi mwynhau cymorth sylweddol o gymynroddau, yn uniongyrchol a thrwy roddion. Credwn yn y dyfodol fod gan weithgaredd codi arian allanol y potensial i helpu ehangu galluoedd a gweithredoedd cyffredinol y Brifysgol.

Y mae cyfraniadau uniongyrchol Prifysgol Aberystwyth i'r economi yng Nghymru felly – o ran staff, poblogaeth ei myfyrwyr a'r incwm sy'n cael ei grynhoi o'i gweithgareddau –yn sylweddol. Y mae gwariant y Brifysgol, a'i staff a'i myfyrwyr, hefyd yn cefnogi gweithgaredd yn rhannau eraill o'r economi rhanbarthol trwy brynu cynnyrch diwydiannau eraill, megis gwasanaethau busnes, adeiladu, nwyddau, effaith sy'n rhaeadru trwy'r economi leol. Y mae'r 7,500 o fyfyrwyr preswyl yn amlwg yn cyfrannu'n uniongyrchol i'r economi leol. Mae nifer o'r myfyrwyr yn cael eu cyflogi yn ystod eu cyfnod astudio, a nifer sylweddol yn aros ac yn gweithio yng Nghymru ar ôl graddio. Y mae'r Brifysgol yn darparu dros 4000 o leoliadau preswyl i fyfyrwyr, yn bennaf mewn Neuaddau Preswyl ac, ar ben hynny, y mae'r incwm a ddaw yn sgil hyn i'r sector tai preifat yn Aberystwyth yn sylweddol.

O ddefnyddio model yr 'effaith lluosogi' a ddatblygwyd ym Mhrifysgol Strathclyde ac a ddisgrifiwyd yn yr adroddiad "The economic impact of UK higher education institutions" a gyhoeddwyd gan UUK ym mis Mai 2006, amcangyfrifwn fod y brifysgol ar hyn o bryd yn cyfrannu tua £200 miliwn y flwyddyn i'r economi leol, swm hynod o bwysig yng nghyd-destun y rhanbarth hon.

## Prifysgol Aberystwyth: darparu pobl a chanddynt sgiliau

Y mae gan y Brifysgol tua 7,500 o fyfyrwyr, tua 80% yn israddedigion ac 20% yn uwchraddedigion (cyrsiau ac ymchwil), ac y mae 2,000 o fyfyrwyr yn graddio bob blwyddyn. Y mae ein cysylltiadau clós â chyflogwyr a chyrff proffesiynol ac ansawdd cydnabyddedig ein dysgu a'n haddysgu yn sicrhau fod gan raddedigion Aberystwyth y sgiliau trosglwyddadwy, yr wybodaeth a'r agweddau y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt. Bob blwyddyn aiff dros 85% o'n graddedigion i swyddi neu hyfforddiant proffesiynol/astudiaeth uwchraddedig yn fuan ar ôl graddio.

Mae'r Brifysgol yn barhaus yn adolygu a datblygu ei maes llafur er mwyn adlewyrchu anghenion cyfnewidiol cyflogwyr ac i sicrhau bod y graddedigion yn derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf a'r sgiliau i'w paratoi i fod yn rhan o'r gweithlu. Ar lefel israddedig mae nifer o'n cynlluniau gradd yn ymgorffori blwyddyn mewn diwydiant sy'n rhoi i fyfyrwyr nid yn unig y cyfle i gymhwyso'u gwybodaeth ond hefyd brofiad o fyd busnes. I uwchraddedigion, darperir hyfforddiant proffesiynol, a, thrwy'r Ysgol Dysgu Gydol Oes, yr ydym yn darparu hyfforddiant arbenigol i unigolion, a chyflogwyr sector cyhoeddus a phreifat. Y mae gan adrannau grwpiau ymgynghorol allanol sy'n cynnwys cynrychiolwyr o fyd busnes a diwydiant.

Gyda chymorth ariannol o'r Gronfa Datblygu Gwybodaeth (KEF), Rhaglen All-Ddeillio Cyllid Cymru (Finance Wales) a Chronfa Trydydd Cenhadaeth y Brifysgol gan y Cyngor Cyllido, yr ydym yn darparu hyfforddiant menter ac entrepreneuriaeth, yn trefnu digwyddiadau rhwydweithio i israddedigion a graddedigion, ac, yn benodol, yn cefnogi graddedigion sy'n ceisio dechrau eu busnes eu hunain. Ar gyfartaled yr ydym yn cynorthwyo tuag 20-30 o raddedigion i ddechrau mewn busnes bob blwyddyn.

Ym mis Rhagfyr 2008 fe lansiwyd y cyntaf o gyfres o ddigwyddiadau Menter Busnes sy'n dwyn ynghyd fusnesau rhanbarthol, y CBI ac academyddion i drafod anghenion y farchnad leol ac i ddarparu cyfleoedd rhwydweithio.

Bu'r KEF yn arbennig o bwysig ar gyfer rhoi prawf amlwg o gyllid cysyniadol a arweiniodd at gyfleoedd trwyddedu. Y mae'r rhaglen ymchwil ddiwydiannol gydweithredol hon wedi annog cyfnewid gwybodaeth â busnesau bach a chanolig [SME] yng Nghymru, ac y mae KEF hefyd wedi rhoi cyllid ar gyfer canolfan drosglwyddo technoleg ym maes Daearyddiaeth a'r Gwyddorau Daear sy'n cynnig gwasanaethau amgylcheddol i fudiadau a chwmnïau preifat a chyhoeddus.

Bu cronfa trydydd cenhadaeth y Cyngor Cyllid yn arbennig o bwysig trwy roi arian i gyflogi arbenigwyr mewn diwydiant, trosglwyddo technoleg, contractau a datblygiadau busnes. Trwy hyn rhoddwyd y brifysgol mewn sefyllfa i allu denu incwm arall ac i chydweithio ar sail y cyllid craidd.

Bu rhaglen All-Ddeillio Cymru yn arbennig o llwyddiannus yn y rhanbarth ac ar gyfartaledd y mae Aberystwyth yn dechrau 3 i 4 busnes newydd y flwyddyn, y rhan fwyaf ohonynt yn aros yn y farchnad ranbarthol, a rhai yn symud ymlaen i Tecniwm Aberystwyth.

Ers nifer o flynyddoedd yr ydym wedi trefnu Cystadleuaeth Sgiliau Myfyrwyr yn flynyddol. Credir mai hon oedd y cyntaf o'r bath yn y DU. Mae timau o fyfyrwyr yn gwneud cyflwyniadau o 10 munud ac yn trefnu stondin yn y Ffair Yrfaoedd. Thema'r achlysur yw sgiliau cyflogadwyedd – sgiliau pwysig yng ngolwg y cyflogwyr a sgiliau sydd wedi eu meithrin gan fyfyrwyr yn ystod eu cyfnod yn y brifysgol. Y mae ystod o gwmnïau ac ungiolion o fyd busnes a diwydiant yn cefnogi a mynychu'r achlysur.

Yn ddiweddar rydym wedi cwblhau astudiaeth ystod o'n hymwneud â'r Cynghorau Sgiliau Sector, ac o ganlyniad i hyn gwnaethom gais, ar y cyd â Phrifysgol Bangor, am gyllid trydydd cenhadaeth cydweithredol i sefydlu Canolfan Sgiliau Aberystwyth/Bangor. Bwriedir i hyn greu cysylltiadau rhwng datblygiadau maes llafur, masnacheiddio a chyngor gyrfaol, ac y bydd yn bwysig i agenda 'sgiliau menter' yn y Brifysgol.

Dros y tair blynedd a aeth heibio derbyniom dros £600k o Gronfeydd Cymdeithasol Ewropaidd. Y mae dau uchafbwynt yn arbennig o

ddiddorol. Y cyntaf ohonynt yw rhaglen y Brifysgol Haf sy'n anelu at ehangu cyfranogiad. Cyfle yw hwn i ddisgyblion ysgol uwchradd gael rhagflas o fywyd prifysgol ac i annog y rhai hynny nad oeddent efallai wedi ystyried Addysg Uwch fel opsiwn iddynt cyn hynny. Yr ail yw'r rhaglen o brosiectau ymchwil/diwydiannol PhD cydweithredol gyda 18 o SME yng Nghymru, sy'n cael ei threfnu ar y cyd â Phrifysgolion Bangor ac Abertawe.

### Prifysgol Aberystwyth: cymhwyso gwybodaeth

Wrth gymhwyso gwybodaeth – 'Trosglwyddo Gwybodaeth' neu 'Gyfnewid Gwybodaeth' – ymgorffori nifer o agweddau sy'n ymestyn ar draws sbectrwm cyfan Menter a Chyswllt. Y mae'n cwmpasu hyfforddiant, mentora, ymgynghori, ymchwil contract a chydweithio diwydiannol, ac yn cynnwys cyswllt â'r gymuned, er enghraifft, â'r cyhoedd yn gyffredinol ac yng ngwaith Canolfan Celfyddydau Aberystwyth.

Y mae'r Brifysgol yn weithredol yn gwarchod yr eiddo deallusol sy'n cael ei greu o'i rhaglenni ymchwil ac y mae'n berchen ar bortffolio o 28 patent ym mhob maes. Rydym yn ceisio masnacheiddio hawliau yr eiddo deallusol hwn a'r arbenigedd sy'n gysylltiedig naill ai trwy drwyddedu gyda chwmnïau sefydliedig neu trwy greu cwmnïau all-ddeillio newydd. Roedd refeniw trwyddedu am y chwe blynedd a aeth heibio dros £200,000. Yn ystod yr un cyfnod o chwe mlynedd, amcangyfrif bod gwerthu cynnyrch cysylltiedig â'r hawliau eiddo deallusol hyn a chwmnïau deillio eraill y brifysgol yn fwy na £50 miliwn.

Yn 2001 llwyddodd y Brifysgol, ar y cyd ag IGER, i ennill un o'r 15 Cronfa University Challenge Feed a sefydlwyd gan OST i fuddsoddi mewn darpar gwmnïau all-ddeillio. Y swm ar gyfer Cronfa Her Aberystwyth oedd £1.5 miliwn. Buddsoddwyd dros £1 miliwn o'r gronfa mewn 6 chwmni all-ddeillio, a llwyddodd y cwmnïau hyn i ddenu £5 miliwn pellach o ffynonellau preifat a chyfalaf menter yn y ogystal â chynlluniau sector cyhoeddus megis SMART Cymru. Yn fwy cyffredinol, amcangyfrifir bod 15 cwmni all-ddeillio'r Brifysgol (yn cynnwys rhai y mae gan y Brifysgol elfen o berchnogaeth arnynt a'r rhai nad ydynt bellach yn eiddo iddi o gwbl) yn cyflogi dros 80 o bobl, y rhan fwyaf yn ardal Aberystwyth.

Yn fwy diweddar, yn 2007, daethom i gytundebau â dau gwmni i fasnacheiddio eiddo deallusol y brifysgol. Cytundeb trwyddedu gydag Ymddiriedolaeth Aeras Bill Gates yw un, sydd wedi trwyddedu patent Prifysgol Aberystwyth i gynorthwyo datblygiad brechiadau newydd ar gyfer tuberculosis. Yn ail, rydym wedi trwyddedu ein harbenigedd mewn delweddu cyfrifiadurol i gwmni all-ddeillio a fydd yn datblygu dulliau gwell o ganfod canser – y mae'r cwmni hwn eisoes wedi denu cyllid cyfalaf menter gan yr ACF, sef Cwmni Cyfalaf Menter o Lundain, a Chyllid Cymru (Finance Wales).

Prif nodwedd economi Cymru yw busnesau a chanddynt lai na 50 o weithwyr. Mae SME yn gallu bod yn her o ran cyswllt cynhyrchiol â sefydliadau Addysg Uwch. Ers degawd, y mae'r Brifysgol wedi ehangu ei chyswllt â'r gymuned SME yng Nghymru ac wedi ceisio torri trwy'r rhwystrau canfyddedig trwy gyfrwng amryw o gynlluniau, sy'n cynnwys y digwyddiad Achlysur Menter Aberystwyth a lansiwyd yn 2007.

Yn ein profiad ni, tuedda SME i gysylltu â sefydliadau Addysg Uwch ar brosiectau lled byr-dymor, megis gwaith ymgynghorol, ond y maent yn llai tebygol o fod yn rhan o gynlluniau mwy tymor hir. Yn 2006/07 gweithiwyd ar gontractau ymgynghori gwerth dros £250,000, a'r gwerth yn gyffredinol oedd £2,000-£5,000 fesul contract. Gweithredwyd 60% o'r contractau hyn trwy'r ddau CETIC sydd gennym a gyllidir gan Gynulliad Cymru: Bywydfan Aber, sy'n fenter ar y cyd ag IGER, a CASSIS, sy'n fenter ar y cyd yn cynnig datblygiad meddalwedd wedi eu teilwra a gyflawnir gan Wyddonwyr Cyfrifiadurol ym Mhrifysgol Aberystwyth a Chaerdydd.

Y mae gan nifer o'r adrannau academaidd eisoes gysylltiadau sefydliedig â chwmnïau mewn ystod o weithgareddau, megis lleoliadau i fyfyrwyr, aelodaeth o Fyrddau Ymgynghori Adrannol, cydweithredu i ddatblygu'r maes llafur, cydweithredu mewn ymchwil a rhaglenni adfywio, Partneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth, a defnydd o offer a gwasanaethau arbenigol. Y mae'r cysylltiadau hyn yn lles i'r ddwy ochr. Y mae rhai canolfannau arbenigol (gan gynnwys ein 2 Canolfan Ragoriaeth ni sy'n cael eu cynnal drwy Raglen CETIC y Cynulliad) wedi sefydlu perthynas arbennig o gryf â chwmnïau cleient. Y mae cysylltiadau o'r fath yn denu busnesau newydd seiliedig ar wybodaeth i'r rhanbarth ac yn atgyfnerthu'r sylfaen busnes sydd yma eisoes. Yn dilyn adolygiad diweddar, y mae'r Brifysgol wedi atgyfnerthu ei hadnoddau datblygu busnes er mwyn cyd-drefnu partneriaethau mwy strategol o'r math hwn ac er mwyn hwyluso cysylltiadau rhwng cwmnïau menter a gweithgaredd ac arbenigedd perthnasol yn y Brifysgol.

Ceir cyngor amhrisiadwy gan unigolion profiadol o fyd busnes a phroffesiynau eraill sy'n cynorthwyo'r Brifysgol yn ganolog a'r adrannau academaidd i ganolbwyntio ar faterion a fydd yn ein rhoi mewn sefyllfa i gyflawni ein cynllun strategol cyffredinol ac i gymhwyso ein gwybodaeth academaidd er lles y gymdeithas.

Un enghraifft o gymhwyso gwybodaeth drwy gyfrwng cydweithio rhwng sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru (yn yr achos hwn Aberystwyth, Bangor ac Abertawe) yw Sefydliad Cymru i Amgylcheddau Cynaliadwy a lwyddodd i ddenu cyllid gan raglen Amcan Un yr Undeb Ewropeaidd. Gan fanteisio ar arbenigedd ymchwil y tri sefydliad ac, yn benodol, arbenigedd ymchwil mewn bioleg a'r gwyddorau gwledig ac amgylcheddol, y mae'r sefydliad hwn yn darparu gwasanaeth ymgynghori busnes i SME yng Nghymru. Y mae'r cyllid cysylltiedig â hyn tua £0.5 miliwn.

Menter sylweddol a sefydlwyd gan gyllid Amcan Un yr Undeb Ewropeaidd yw'r Ganolfan Rhagoriaeth mewn Delweddu. Cwmni meddalwedd arbenigol yw hwn sy'n defnyddio arbenigedd technolegol yn y dechnoleg ddelweddu ddiweddaraf i gynorthwyo busnesau yng Nghymru. Cyfanswm y cyllid i'r prosiect oedd £10.4 miliwn. Y mae'n enghraifft ardderchog o'r ffordd y gall cysylltiadau rhwng sefydliadau addysg uwch a diwydiant fod o les economaidd.

Crybwyllwyd Canolfan Celfyddydau Aberystwyth eisoes. O ran Cylch Gorchwyl y Pwyllgor sy'n canolbwyntio ar ' ... gyfraniadau ehangach prifysgolion i'w lleoliadau ...' Canolfan Gelfyddydau'r Brifysgol yw un o'r lleoliadau mwyaf o'i bath yn y DU. Mae tua 120,000 yn talu i ddod i fwynhau ystod eang o gerddoriaeth, dawns, drama, daw 175,000 o ymwelwyr am ddim i'r orielau a'r amgueddfeydd, a 90,000

pellach i bob math o ddosbarthiadau (ffotograffiaeth, bale, dawns modern, celf, cerddoriaeth ac yn y blaen.

**Casgliad**

**Canolbwyntiodd y cyflwyniad hwn ar yr effaith economaidd, diwylliannol a chymdeithasol Prifysgol Aberystwyth a'i dylanwad cryf ar yr economi ranbarthol. Y mae hyn, serch hynny, yng nghyd-destun y swyddogaeth hanfodol sydd i addysg uwch yn natblygiad economïau cystadleuol gwybodaeth. Y mae'n hanfodol bod Cymru yn ymateb i'r heriau byd-eang a bydd ei Sefydliadau Addysg Uwch yn gyrru y newidiadau deallusol a thechnolegol angenrheidiol.**

**A dod nôl at Aberystwyth, y mae'r brifysgol yn ceisio ei gwneud ei hun yn fwy cystadleuol yn rhyngwladol er mwyn gwella ei chyfraniad i Gymru ac economi Cymru. Yn hyn o beth, y mae ymgorffori IGER yn y brifysgol yn ddatblygiad pwysig, fel ag y mae datblygu cysylltiadau strategol a chynaliadwy â Phrifysgol Bangor. Bydd y ddeubeth yn cynyddu crynswth effeithiol yr ymchwil a'r menter, ac yn benodol yn rhyddhau'r manteision a ddaw o weithio rhyngddisgyblaethol. Byddwn yn adeiladu yn gyffredinol ar ein cryferau academaidd ac yn atgyfnerthu'r 'ffrwd' sy'n trosglwyddo gwybodaeth o ymchwil i fenter.**

**Ionawr 2008**